

Ad-drefnu Pontydd Afon Tawe



Mae Pontydd Tawe yn ffurfio'r prif fynediad porth i ganol y ddinas a Phenrhyn Gŵyr ac mae eu had-drefnu'n gam cyntaf cynllun gwella'r llwybr dinesig a adweinir fel y Rhodfa.

Bydd hyn yn un o themâu allweddol strategaeth adfywio'r ddinas i drawsnewid coridor presennol Heol Ystumllwynarth/Parêd y Cei presennol i lwybr dinesig a fydd yn llawn symud a gweithgaredd, ac a fydd yr un mor ddeniadol ac y mae'n ddefnyddiol. Bydd cerddwyr a beicwyr yn cael mwy o flaenoriaeth gyda sgwariau croesi newydd ar ei hyd cyfan.

Mae'r gwaith wedi creu porth deniadol i Abertawe a Gŵyr, gan ddefnyddio deunyddiau o ansawdd, ac maent wedi gwella tagfeydd traffig yn sylweddol, gan ganiatáu am dwf yn y dyfodol. Trwy gynllunio a gweithio ar y cyd roedd modd cwblhau'r prosiect heb aflonyddu'n ormodol ar y miloedd o ddefnyddwyr dyddiol. Llwyddwyd i gryfhau Pont Heol New Cut er mwyn caniatáu'r lôn draffig ychwanegol drwy fondio platiau polymer wedi'u hatgyfnerthu â ffibr i fondoeau'r trawstiau concrit rhag-gastiedig, heb unrhyw effaith ar y traffig ar y ffordd uwchben.

Er y dylinwyd y cynllun yn unol â'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, cafodd egwyddorion y Llawlyfr Strydoedd eu hystyried a mabwysiadwyd ymagwedd cyfnas gwag i leihau annibendod ar y strydoedd lle y bo modd cyflawni hynny.

Mae'r goleuadau traffig, gyda chroesfan puffin a reolir drwy system gyfathrebu MESH di-wifr, yn galluogi rheoli pedair gyffordd ar y pontydd o bell o ganolfan TGCh y Ganolfan Ddinesig. Mae gwell reolaeth dros y cyffyrdd hyn a dyluniad cyfnodau diwygiedig yn optimeiddio amserau beicio. Mae SCOOT wedi galluogi lleihau amserau beicio ar draws coridor Heol Ystumllwynarth ymhellach, sy'n fantais i fodurwyr, cerddwyr a chluant cyhoeddus.

Cleient: Dinas a Sir Abertawe

Cyllid: Rhaglen Gydygyfeirio ERDF, Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a DASA

Gwerth: £2.2m

Lleoliad: St Thomas, Abertawe

Dyddiadau gwasanaeth: 2011 – 2012

Gwasanaethau: Dyluniad manwl, datblygu dogfennau contract, CADRh, goruchwyllo adeiladu a rheoli costau

Contractwr: Alun Griffiths (Contractors) Ltd.

Gwobrau:

Wedi cyrraedd y rhest fer ar gyfer Gwobr Roy Edwards ICE 2012

